TAI CANOLBARTH CYMRU

CAIS I FOD YN AELOD O'R BWRDD

Cyfrinachol

NODIADAU: 1. Caiff yr holl wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon ei thrin yn hollol gyfrinachol.

2. Os nad oes digon o le ar y ffurflen, parhewch ar ddalennau ar wahân os gwelwch yn dda a'u hatodi cyn dychwelyd y ffurflen ac anfon gwybodaeth ychwanegol i'r Gymdeithas.

Cyfenw : _____Enw(au)(cyntaf: _____

Rhif Ffôn Cartref: _____Rhif Ffôn Symudol: _____

Cyfeiriad Cartref: _____ Rhif Ffôn Swyddfa: _____
(os yn gyfleus)

_____

Cyfeiriad E-bost: _____

_____

A ydych yn berchen car: YDW/NA

Os na, a oes gennych fynediad rheolaidd i gar? OES/NA

A oes gennych drwydded yrru lân? OES/NA

A yw'ch iechyd yn dda? YDI/NA

Rhowch ddyddiadau a manylion unrhyw faterion iechyd neu anabledd:

_____

_____

Os oes gennych anabledd, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda am unrhyw addasiadau arbennig y medrwch fod eu hangen mewn cyfweliad.

_____

_____

A ydych erioed wedi eich cael yn euog o drosedd? DO/NA
(datganiad yn amodol ar Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974)

1. Addysg Uwchradd a Phellach

Ysgol/Coleg	Dyddiadau o O	I	Cymwysterau a Enillwyd

2. Cymwysterau Proffesiynol
(Nodwch y dyddiad y gwnaethoch eu hennill)

_____

_____

_____

_____

3. Gyrfa
Rhowch fanylion swyddi a fu/sydd gennych.

O	I	Swydd a manylion byr am y swydd	Enw a chyfeiriad Cyflogydd

4. Gwasanaeth Cyhoeddus

Rhowch fanylion unrhyw wasanaeth cyhoeddus a wnaethoch, e.e. Cynghorydd Sir neu Dref, Cyngor Iechyd y Gymuned ac ati, ac esbonio sut y byddai hyn yn eich cynorthwyo i gyflawni rôl Aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai.

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

5. Gweithgareddau Gwirfoddol neu Ddi-dâl

Rhowch fanylion unrhyw weithgareddau gwirfoddol neu ddi-dâl a wnewch lle byddent yn eich cynorthwyo i gyflawni rôl Aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai.

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

6. Gwybodaeth Ychwanegol

Nodwch eich rheswm dros wneud cais i fod yn Aelod o'r Bwrdd ac unrhyw wybodaeth arall y dymunwch ddod â hi i sylw'r Gymdeithas i gefnogi eich cais.

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

Mae gan Tai Canolbarth Cymru oblygiad statudol yn unol â Deddf Tai 1996 i sicrhau nad oes gan Aelodau Bwrdd ddiddordebau deuol neu wrthdaro diddordeb. Nodwch os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw gysylltiad agos (ariannol neu fel arall) gydag unrhyw ymgynghorydd, contractwr neu sefydliad sy'n gweithio i'r Gymdeithas.

_____

_____

_____

Ni all Tai Canolbarth Cymru ystyried cyflogeion neu eu perthnasau agos fel Aelodau Bwrdd gan y byddai'n anghyfreithlon i gynnig contract cyflogaeth i Aelod o'r Bwrdd neu berthynas agos. Nodwch felly os gwelwch yn dda os ydych yn perthyn yn agos i rywun a gyflogir gan y Gymdeithas, gan roi enw'r person a'u perthynas i chi.

_____

Cadarnhaf fod y manylion yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Llofnod:_____Dyddiad:_____

Pe byddech yn aflwyddiannus wrth ymuno â Bwrdd Tai Canolbarth Cymru, hoffem anfon eich manylion i Cartrefi Cymunedol i'w ystyried gan Gymdeithasau Tai eraill. Nodwch os gwelwch yn dda os ydych yn cytuno i hyn: YDWYF/NA

Tai Canolbarth Cymru Cyf
Tŷ Canol, Ffordd Croesawdy
Y Drenewydd
Powys SY16 1AL

Ffôn: 0300 111 3030 Ffacs: 0300 111 3031
E-bost: post@mid-walesha.co.uk gwefan: www.mid-walesha.co.uk

TAI CANOLBARTH CYMRU
MID-WALES HOUSING
Yn barod **amdani** **Equal** to the challenge

Preifat a Chyfrinachol

Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal

Mae gan Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru ymrwymiad i ddarparu Cyfle Cyfartal. Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen hon er mwyn monitro a sicrhau llwyddiant ein Polisi Cyfle Cyfartal, er cewch ddewis gwneud hynny ai peidio gan ei bod yn wirfoddol. Caiff yr holl wybodaeth ei thrin yn hollol gyfrinachol a dim ond gan staff yn monitro'r Polisi Cyfle Cyfartal y caiff ei defnyddio a ni chaiff ei chysylltu gyda'ch ffurflen gais. Ar ôl ei llenwi, gofynnir i chi amgáu'r ffurflen gyda'ch cais.

Swydd y gwneir cais amdani: AELODAETH O FWRDD CYMDEITHAS TAI CANOLBARTH CYMRU

Lle gwelsoch y swydd yn cael ei hysbysebu? .....

Rhyw: **Gwryw** ☐ **Benyw** ☐

Dyddiad Geni: ..... **Cyfeiriad:** .....

Sut fyddech chi'n disgrifio eich **Tarddiad Ethnig?** (Ticiwch y blwch perthnasol os gwelwch yn dda)

Gwyn

- Prydeinig ☐
- Gwyddelig ☐
- Cymreig ☐
- Unrhyw gefndir Gwyn arall ☐

Rhowch fanylion: .....

Cymysg

- Gwyn a Du Caribïaidd ☐
- Gwyn a Du Affricanaidd ☐
- Gwyn ac Asiaidd ☐
- Unrhyw gefndir Cymysg arall ☐

Rhowch fanylion: .....

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd ☐
- Pacistanaidd ☐
- Bangladeshaidd ☐
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall ☐

Rhowch fanylion: .....

Du neu Ddu Prydeinig

- Caribïaidd ☐
- Affricanaidd ☐
- Unrhyw gefndir Du arall ☐

Rhowch fanylion: .....

Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall

- Tsieineaidd ☐
- Unrhyw grŵp ethnig arall ☐

Rhowch fanylion: .....

(Y categorïau hyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad 2001 ac fe'u hargymhellir ar gyfer eu defnyddio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Iaith: A ydych yn medru sgwrsio/cyfathrebu yn:
(ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Saesneg ☐ Cymraeg ☐

Iaith Arwyddion (BSL) ☐ Arall ☐

Rhowch fanylion am iaith arall:
.....

A oes gennych **anabledd**? Oes ☐ Na ☐

(Gweler y diffiniad o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'r Datganiad Cyfle Cyfartal amgaeedig – Pobl gydag Anabledd)

Beth yw eich **crefydd/ffydd**
(ticiwch y blwch perthnasol)

Cristion ☐ Hindŵ ☐

Iddew ☐ Mwslim ☐

Sikh ☐ Bwdhydd ☐

Gwrthod nodi ☐ Arall ☐

Rhowch fanylion:
.....

Sut fyddech chi'n disgrifio eich **cyfeiriadaeth rywiol?** Heterorywiol ☐ Lesbian ☐

Hoyw ☐ Deurywiol ☐

Gwrthod nodi ☐

CYMDEITHAS TAI CANOLBARTH CYMRU – DISGRIFIAD SWYDD

Dynodiad: Aelod Bwrdd

Cyfrifol i: Cadeirydd a'r Bwrdd

Pwrpas: Cynnal gwerthoedd, amcanion a pholisïau'r Gymdeithas ac i fod yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo gweithrediad llwyddiannus Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn unol â rheolau'r Gymdeithas a'r gofynion cyfreithiol, cyllidwyr a rheoliadol.

Cyfrifoldebau Allweddol:

1. Bod yn Aelod tîm gwerthfawr a chyfranogol o'r Bwrdd.

2. Mewn cysylltiad gydag Aelodau Bwrdd eraill, sicrhau y caiff gwerthoedd ac amcanion y sefydliad eu cyflawni, sicrhau fod polisïau a chynlluniau'n bodoli i gyflawni'r amcanion hynny a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gyllideb, cynllun busnes a fframwaith cyfrifeg.

3. Sicrhau y cynhelir busnes y Gymdeithas yn gyfreithlon drwy fframwaith o ddirprwyo a systemau o reolaeth fewnol, gyda fframwaith ar gyfer dynodi a rheoli risg yn effeithiol.

4. Gydag aelodau eraill y Bwrdd, monitro perfformiad y Gymdeithas yng nghyswllt ei chynlluniau, cyllidebau, mesurau rheoli a thrafodaethau yn unol â safonau priodol a Chodau Ymddygiad, perfformiad a chywirdeb, hefyd yng nghyswllt adborth cwsmeriaid a pherfformiad sefydliadau cyffelyb.

5. Sicrhau bod swyddogaethau'r Gymdeithas yn cydymffurfio gyda'i gyfansoddiad ei hun, rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog a Chod Rheoliadol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

6. Gydag Aelodau eraill y Bwrdd, penodi (ac, os oes angen, ddiswyddo) y Cadeirydd neu'r Bwrdd a/neu'r Prif Weithredydd.

7. Mynychu a chyfrannu mewn cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor, gan ddod â safbwynt cymunedol neu leol arall penodol, sgil neu arbenigedd proffesiynol, ond heb weithredu fel cynrychiolydd unrhyw grŵp neilltuol.

8. Parchu a chadw cyfrinachedd busnes y Gymdeithas a lle bo angen, datgan unrhyw ddiddordebau perthnasol i'r Ysgrifennydd.

9. Ymrwymo'r amser angenrheidiol i gynrychioli'r Gymdeithas, mynychu cynadleddau a hyfforddiant a chefnogi staff pan fo angen.

10. Cynnal unrhyw swyddogaethau eraill sy'n gyson â rôl Aelodaeth Bwrdd a ddynodir gan Gadeirydd y Bwrdd.

Mae'r disgrifiad rôl yn amlinellu'r swydd bresennol. Fodd bynnag, gall newidiadau graddol ddigwydd wrth i'r Gymdeithas ddatblygu. Byddir yn ymgynghori gyda phob Aelod lle mae newidiadau sylweddol yn digwydd neu sy'n effeithio ar y lefelau cyfrifoldeb.

CYMDEITHAS TAI CANOLBARTH CYMRU

MANYLEB PERSON AELODAU BWRDD (SEILIEDIG AR GYMHWYSEDD)

Dylai Aelodau Bwrdd fod â, neu'n medru ennill, ystod amrywiol o sgiliau, cymwyseddau, profiad a gwybodaeth. Dylai'r rhain gynnwys y meysydd eang dilynol:

- Darparu arweinyddiaeth a gweithio fel tîm effeithiol i gymryd penderfyniadau strategol a pholisi.
- Ymwybyddiaeth o anghenion a dyheadau'r cymunedau a'r bobl a wasanaethir.
- Sgiliau busnes, ariannol a rheoli cyffredinol.
- Bod yn barod i ddefnyddio technoleg newydd wrth gynnal busnes y Gymdeithas*.
- Y fframwaith allanol a'r amgylchedd gweithredu.
- Sgiliau eraill perthnasol neu arbenigol, e.e. ariannol, cyfreithiol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, eiddo, cynllunio a datblygu ac ati.

Mae'r siart cymhwysedd islaw'n nodi'r gofynion hyn yn fanwl:

CYMHWYSEDD HANFODOL	**DANGOSYDDION CADARNHAOL**
Sgiliau rhyngbersonol	Cysylltu ag eraill mewn modd effeithlon. Defnyddio trafodaeth yn adeiladol i ddod i gytundeb.
Gwytnwch	Cadw ymddygiad proffesiynol mewn sefyllfaoedd anodd.
Ffocws ar randdeiliaid	Ymrwymiad i athroniaeth o welliant parhaus mewn amgylchedd o ffrwd incwm a reolir. Hyrwyddo lles a chymhwysedd cyflogeion. Ffocws ar gwsmeriaid mewnol ac allanol.
Ymwybyddiaeth o Ddiwylliant	Parchu diwylliannau a gwerthoedd sy'n wahanol i'w ddiwylliant a gwerthoedd ei hun. Dysgu am a deall y materion.
Diwylliant Corfforaethol	Ymroddiad i werthoedd y sefydliad. Teyrngar i'r cyfan corfforaethol.
Atebolrwydd	Perchnogaeth o amcanion strategol. Cymryd cyfrifoldeb dros weithredoedd y Gymdeithas a'i Chynllun Busnes.
Integriti	Cyson a chywir. Hyrwyddo ei gwerthoedd.
Ymwybyddiaeth Allanol	Cadw'n gydwastad gyda thai a chyfarwydd â materion cyfoes.
Datrys problemau	Medru dadansoddi a dod i gasgliadau. Chwarae rhan yn y datrysiad.
Rheoli technoleg	Cyfrannu i'r drafodaeth ar faterion technoleg. Sicrhau yr addasir technolegau addas yn cynnwys TG.

* I'w ddarparu gan y Gymdeithas lle bo angen.

Cymhwysedd Ariannol	Deall y fantolen a'r cyfrif incwm a gwariant. Cyfrannu at drafodaeth ariannol
Ymwybyddiaeth o'r Gyfraith	Deall cyfrifoldebau cyfreithiol. Cyfrannu at y drafodaeth ar faterion cyfreithiol.
Datblygu Eiddo	Deall y broses a'r risgiau. Cyfrannu at y drafodaeth ar ddatblygu.
Rheoli Risg	Medru gwerthfawrogi a deall canlyniadau risg.

Nodyn pwysig: Bydd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn parhau i gynnig cyfleoedd i'w Aelodau Bwrdd i ddatblygu'r cymwyseddau hyn drwy brosesau hyfforddi a datblygu.

CYMDEITHAS TAI CANOLBARTH CYMRU

GWYBODAETH GYFFREDINOL I AELODAU BWRDD

Dyma'r atebion i rai cwestiynau allweddol a all fod gennych:

Beth yw Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru?

Sefydlwyd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn 1975 gan grŵp o bobl leol oedd â diddordeb mewn cynnig anheddau o safon dda ar gost isel i rai mewn angen, yn arbennig bobl sengl a chyplau. Ein rôl wreiddiol oedd ategu anheddau'r awdurdod lleol oedd, ar y pryd, yn bennaf yn cynnwys tai 3 llofft i deuluoedd. Ers y dechreuad bach hwnnw dros 30 mlynedd yn ôl, rydym wedi ehangu ein rôl i gyflawni anghenion pob sector o'r gymuned: pobl sengl o bob oedran, teuluoedd, pobl hŷn a rhai gydag anghenion gofal a chymorth ychwanegol.

Mae'r Gymdeithas wedi cofrestru fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus, ac fel 'Landlord Cymdeithasol Cofrestredig' gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n aelod o Cartrefi Cymunedol. Mae'n gweithredu dan Reolau Model 2005 (Diwygiedig) y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol.

Ble mae ei phencadlys?

Symudodd y Gymdeithas i swyddfeydd newydd eu hadeiladu yn Nhŷ Canol yng nghanol y Drenewydd yn 2010. Mae swyddfeydd lleol Gofal a Thrwsio ym Mhowys hefyd yn seiliedig yma yn ogystal â'u prif swyddfa yn Llandrindod.

Ble mae'n gweithredu?

Mae'n gweithredu dros ardal fawr iawn o ganolbarth Cymru yn cynnwys Sir Drefaldwyn, Sir Faesyfed, Gogledd Sir Frycheiniog a rhannau o Geredigion. Mae hefyd ychydig o anheddau yn Swydd Amwythig. Mae mwy o anheddau yn Sir Drefaldwyn nag mewn unrhyw ardal arall.

Pa fath o anheddau sydd ganddi?

Mae'n rheoli 1,300 uned ar hyn o bryd.

Mae'r rhain yn amrywio o fflatiau 1 llofft hyd at dai 4 llofft ar gyfer teuluoedd mwy. Mae ganddi hefyd gynlluniau gwarchod ar gyfer yr henoed a nifer sylweddol o gynlluniau arbennig ar gyfer aelodau mwy bregus o gymdeithas, sydd angen gofal a/neu gefnogaeth. Caiff y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen eu darparu gan bartneriaid rheoli arbenigol.

Mae'r rhan fwyaf o'r anheddau yn rhai newydd eu hadeiladu, er bod nifer o anheddau wedi eu hadnewyddu (neu ei hailwampio), y rhan fwyaf ohonynt wedi'u

datblygu rai blynyddoedd yn ôl ac yn cynnwys tai mawr wedi'u rhannu'n fflatiau hunangynhwysol.

Sut caiff y Gymdeithas ei hariannu?

Caiff ei datblygiadau newydd eu hariannu gan gyfuniad o grant cyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef ein corff cyllido a monitro, a benthyciad gan fenthycydd preifat megis cymdeithas adeiladu neu fanc.

Mae'r swm o grant cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer cynlluniau newydd wedi gostwng yn sylweddol ers 1989 ac ar hyn o bryd mae'n 58% o gost cynllun. Mae hyn yn golygu fod y canran o fenthyciad preifat wedi cynyddu ac yn awr yn gorfod talu am 42% o gost y cynllun.

Ar y rhan fwyaf o'i hanheddau, mae'n gorfod gosod ei renti ei hunan i dalu am ei threuliau - nid yn unig ad-daliadau benthyciad a chostau beunyddiol rheolaeth a chynnal a chadw, ond gwariant a gynlluniwyd ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol. Mae'n waith anodd cael y fantol gywir rhwng codi rhent digonol i dalu am y treuliau hyn ac ar yr un pryd gadw'r rhent i ffigur sy'n fforddiadwy i'n tenantiaid.

O bryd i'w gilydd medrodd ddatblygu tai yn defnyddio ffrydiau cyllid eraill ac mae ystyried ffyrdd newydd a blaengar o ddiwallu angen tai yn agwedd bwysig o'i gwaith.

Pwy all ddod yn Aelod o'r Gymdeithas?

Mae aelodaeth o'r Gymdeithas ar gael i unrhyw un sy'n talu £1 am gyfranddaliad. Mae'r Gymdeithas yn gwmni cyfyngedig ac mae'n ofyniad cyfreithiol fod pob Aelod yn berchen ar gyfranddaliad. Nid oes difidend!

Mae'n rhoi anogaeth neilltuol i'w thenantiaid i ddod yn aelodau o'r Gymdeithas.

Sut etholir Aelodau Bwrdd?

Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu iddi gael o leiaf saith a dim mwy na 15 o Aelodau Bwrdd, a gall traean ohonynt fod yn denantiaid a etholir gan denantiaid y Gymdeithas i fod yn aelodau Bwrdd. Os oes swydd wag achlysurol ar y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, medrir ethol Aelod ychwanegol o blith aelodaeth y Gymdeithas. Yn lle hynny, medrid gwahodd person nad yw'n aelod o'r Gymdeithas i ymuno â'r Bwrdd os oes ganddo/ganddi arbenigedd neu sgiliau neilltuol a fyddai'n ddefnyddiol i'r Gymdeithas.

Caiff y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd eu hethol yn flynyddol. Gall y Cadeirydd ddal ei swydd am gyfnod olynol heb fod yn fwy na thair blynedd. Gall, ond nid yw'n rhaid, i'r Dirprwy Gadeirydd gael ei ethol i'r Gadair pan fo'r Cadeirydd presennol yn sefyll i lawr yn y CCB.

Beth mae'r Bwrdd Rheoli'n ei wneud?

Y Bwrdd Rheoli yw corff llywodraethu'r Gymdeithas ac mae'n gyfrifol ac yn atebol am ei rheoli.

Rhoddir manylion cylch gorchwyl y Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog a roddir i chi os deuwch yn Aelod o'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob yn ail fis yn y Drenewydd, gyda chyfarfodydd achlysurol yn Aberystwyth a Llandrindod. Cynhelir y cyfarfod ar bedwerydd dydd Mercher yr ail mis am 5.30pm. Mae cyfarfodydd arbennig ychwanegol weithiau.

Gall y Bwrdd ddirprwyo rhai o'i ddyletswyddau i is-bwyllgor: mae pump Aelod Bwrdd ar un o'r pwyllgorau hyn – y Pwyllgor Craffu. Mae pwyllgorau eraill yn cynnwys y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Enwebiadau.

Beth yw rôl Pwyllgor?

Mae'r Bwrdd Rheoli yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i Bwyllgor, un ai Bwyllgor sefydlog, neu Bwyllgor ad-hoc a sefydlwyd ar gyfer tasg neilltuol. Caiff cylch gorchwyl y Pwyllgor ei nodi yn y Rheolau Sefydlog.

Pwyllgor Craffu

Mae'r Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am adolygu gwaith y Gymdeithas yn fwy manwl nag a fyddai'n bosibl i'r Bwrdd wneud. Yn neilltuol, mae hyn yn cynnwys archwilio mewnol, asesu risg ac adolygiadau unigol o wasanaethau a ddarperir.

Mae'r Pwyllgor Craffu fel arfer yn cwrdd bob yn ail fis ar drydydd dydd Mercher y mis (heblaw misoedd Ebrill, Awst a Rhagfyr) yn ystod y dydd.

Beth yw Gofal a Thrwsio ym Mhowys?

Mae Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn asiantaeth sy'n cynorthwyo pobl hŷn ac anabl i aros yn eu cartrefi ei hunain yn gysurus ac yn ddiogel. Mae'n rhoi cyngor, help wrth gael cyllid grant ac arbenigedd technegol i gynllunio a gwneud addasiadau neu welliannau os oes angen.

Mae'r asiantaeth yn is-gwmni annibynnol yn ffurfio rhan o Grŵp Tai Canolbarth Cymru.

Mae ei Bwyllgor Rheoli ei hun yn cwrdd yn chwarterol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Rheoli'r Gymdeithas yn ogystal â chyrff statudol a gwirfoddol perthnasol. Mae'n seiliedig yn Llandrindod ac mae'r Gymdeithas yn defnyddio'r swyddfa hon i gael presenoldeb lleol.

A yw Aelodau Bwrdd yn derbyn tâl?

Na. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gymdeithas yn teimlo ei bod yn bwysig fod cyfraniad gwirfoddol Aelodau Bwrdd yn parhau. Felly, ni thalir lwfans mynychu neu debyg. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu p'un ai a ddylai aelodau gael eu talu yng Nghymru.

Gall Aelodau Bwrdd hawlio ad-dalu costau teithio i fynychu cyfarfodydd Bwrdd neu Bwyllgor neu fusnes swyddogol arall y Gymdeithas. Gall Aelodau Bwrdd hefyd hawlio cost cinio canol-dydd neu swper lle bo angen cael y pryd hwn i ffwrdd o adref ac na chaiff pryd ei ddarparu. Rhaid cyflwyno derbynebau.

Bydd y Gymdeithas yn ystyried pob traul resymol arall, er enghraifft, gostau gofal plant i aelodau i'w galluogi i fynychu cyfarfodydd.

Gofynnir i Aelodau Bwrdd gyflwyno hawliadau ar gyfer costau teithio a/neu lwfansau cynhaliaeth i'r Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol yn fisol lle bynnag y bo modd.